


Arloesi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymorth Ymchwil Datblygu ac Arloesi Covid-19 – Bond Digital Health Ltd

Cwmni yng Nghaerdydd yn datblygu galluedd profion
llif unffordd diolch i gymorth Arloesi Llywodraeth Cymru.



Nod cronfa Cadernid Ymchwil Datblygu ac Arloesi Covid-19 Llywodraeth Cymru oedd cynnig cymorth ariannol i fusnesau oedd yn gyrru datblygiadau technolegol newydd mewn ymateb i'r pandemig Covid-19.

Cafodd y cwmni technoleg feddygol Cymreig blaenllaw, Bond Digital Health, gwerth £142K o gyllid trwy'r Cynllun Cymorth Ymchwil Datblygu ac Arloesi Covid-19 i'w gynorthwyo i ddatblygu ei blatfform cysylltedd a data ar gyfer profion llif unffordd Covid-19 newydd. Mae'r prosiect wedi galluogi'r cwmni i gyflymu datblygiad ei blatfform Transform[®], sef platform cysylltedd trwy'r we i dracio canlyniadau profion coronafeirws, gan ddarparu

Mae Transform[®] yn eich galluogi i fewnbynnu symptomau a rheoli eich iechyd mewn modd didrfferth iawn



canlyniadau cyflym, amser real, sy'n hawdd eu cofnodi ar gyfer profion, a hynny gan ddiogelu data a chydymffurfio â'r rheoliadau. Bydd y platfform yn helpu Llywodraeth Cymru i drefnu adnoddau hanfodol bwysig fel staff gofal iechyd, cyfarpar amddiffynnol personol, profion diagnostig, meddyginiaeth a brechiadau.

Mae'r cwmni wedi defnyddio technoleg ap a'r cwmwl i chwyldroi cyflymdra a chywirdeb canlyniadau profion llif unffordd. Anfonir canlyniadau profion a gwybodaeth arall yn uniongyrchol o'r ap i'r cwmwl, wedyn gellir gweld y data'n rhwydd ar fapiau, siartiau ac mewn adroddiadau eraill, a hynny ar unwaith. Un o nodweddion pwysig y platfform yw diogelwch y data a'i gydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Yn achos y pandemig Covid-19, mae hynny'n golygu bod unrhyw un sy'n gweithio ym maes rheoli afiechydon yn gallu gweld ymhle mae'r haint yn brigo neu dan reolaeth mewn amser real.

Mae'r cwmni'n rhan o gonsortium rhyngwladol sy'n cynhyrchu profion diagnostig ar gyfer cleifion lle mae amheuaeth o Covid-19. Roedd y platfform ar y gweill cyn dechrau'r pandemig, ond cyflymodd y pandemig ei ddatblygiad am y bu cynnydd anferth yn nifer yr ymholiadau am brofion llif unffordd o weddill y byd. Diolch i'r cyllid a gafodd y cwmni gan Lywodraeth Cymru, bu modd i Bond Digital Health ehangu ei dîm yn gyflym er mwyn rheoli'r galw a marchnata eu profion llif unffordd yn effeithiol, a threblodd nifer ei weithwyr mewn cwta 12 mis.

Tim Bond Digital Health.



Gallwch ddefnyddio Transform® i gofnodi canlyniadau profion llif unffordd yn gyflym.

Mae datblygiad y platfform Transform® yn arwydd arall o gadernid sector gwyddorau bywyd Cymru sy'n gyson â Chynllun Gweithredu Economaidd y Llywodraeth sydd â'r nod o gynorthwyo twf busnesau at y dyfodol.

Mae enw da Cymru fel hyb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd wedi bod yn tyfu'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, gyda busnesau Cymreig arloesol yn chwarae rhan hanfodol wrth daclo pandemig y coronafeirws. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru'n helpu busnesau eraill fel Bond Digital Health i ddatblygu atebion i'r sialensiau sydd wedi codi yn sgil y pandemig Covid-19, ac yn cynorthwyo twf cynaliadwy busnesau newydd arloesol.

Wrth siarad am fanteision cyllid Ymchwil Datblygu ac Arloesi Covid-19, dywedodd cyfarwyddwr masnachol y cwmni, Phil

Groom: "Diolch i'r cyllid a gawsom trwy raglen Arloesi Llywodraeth Cymru, bu modd i ni ehangu ein tîm a diwallu'r galw am ein technoleg o'r byd go iawn, galw sydd wedi cynyddu'n sylweddol yn sgil y coronafeirws.

"Rydyn ni wedi gallu marchnata profion llif unffordd digidol yn fwy effeithiol ac addysgu'r sector am eu lluo o ddefnyddiau y tu hwnt i ddiagnosteg y coronafeirws. Mae ein platfform Transform® yn caniatáu i sefydliadau arloesol ym mhedwar ban y byd ddigideiddio profion llif unffordd. O brofi anifeiliaid mewn diwydiannau gwledig i fwyd a diod a rheoli iechyd y cyhoedd, bydd y gymdeithas ar ei hennill diolch i brofion llif unffordd effeithlon sy'n cael eu gyrru gan ddata.

Phil Groom, Cyfarwyddwr Masnachol, Digital Bond Health

**Busnes | Business
Cymru | Wales**

Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu economaidd yw strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru. Dysgwch ragor am y cyllid a'r gefnogaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru:

03000 6 03000 | innovation@llyw.cymru
businesswales.gov.wales/innovation/cy



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**